

Bwletin Awdurdod S4C - Chwefror 2003

Ar ddechrau cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr yng Nghaerdydd, croesawyd Mrs Carys Howell yn gynnes iawn i'w chyfarfod cyntaf ar Awdurdod S4C.

Syr Goronwy Daniel

Mynegodd yr Awdurdod ei dristwch mawr ynglyn â marwolaeth Syr Goronwy Daniel, cadeirydd cyntaf S4C a gwr a fu'n un o'r ddirprwyaeth a berswadiodd y Llywodraeth i beidio symud i ffwrdd o'r ymrwymiad i sefydlu'r Sianel. Bu ei gyfraniad i S4C yn un enfawr ac ef fu'n gyfrifol am osod pethau yn eu lle ar y cychwyn oll. Yn ogystal, Syr Goronwy Daniel oedd Ysgrifennydd Parhaol cyntaf y Swyddfa Gymreig a bu hefyd yn Brifathro ar Brifysgol Aberystwyth. Roedd yr angladd yn cael ei gynnal nes ymlaen yn y diwrnod ac fe fyddai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd yn mynychu ar ran S4C.

Sain Ddisgrifio

Adroddwyd bod y swyddogion wedi trafod y mater hwn ymhellach a'u bod yn awyddus i drafod y mater gyda darlledwyr eraill i weld beth oedd eu safbwynt nhw ynglyn â'r problemau technegol oedd yn atal datblygiad y gwasanaeth hwn ar hyn y bryd.

Isdeitlau Cymraeg

Adroddwyd bod y Tîm Rheoli wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o gynnig gwasanaeth is-deitlo Cymraeg fyddai'n addas ar gyfer pobl fyddar neu drwm eu clyw ac i ddysgwyr. Roedd yn fwriad i ddod ag argymhellion terfynol gerbron yr Awdurdod ym mis Chwefror, gan anelu at roi'r gwaith allan i dendr ym mis Mawrth, ac yna ddechrau'r gwasanaeth newydd ar 1 Gorffennaf 2003.

Llywodraethwr Cenedlaethol BBC Cymru

Cyfeiriwyd at y cyhoeddiad bod Yr Athro Merfyn Jones wedi'i benodi fel y Llywodraethwr Cenedlaethol newydd. Roedd y Cadeirydd eisoes wedi gyrru llythyr o longyfarch at Yr Athro Jones a hefyd wedi cael trafodaeth anffurfiol da iawn gyda ef.

Cynhadledd IPPR

Adroddodd y Cadeirydd ar gynhadledd ar ddarlledu wedi'i drefnu gan yr IPPR a fynychodd. Roedd yna ddau brif beth i'w nodi:

- (a) Soniodd yr Ysgrifennydd Gwladol, Tessa Jowell, ei bod hi'n fwriad ganddi i roi sylw manwl i'r mater wrth i Siarter y BBC gael ei adnewyddu ar gyfer 2006. Byddai angen i S4C gadw llygaid ar sut yr oedd hyn yn datblygu gan y gallai effeithio ar sefyllfa'r Awdurdod.
- (b) Yn ystod ei araith ef, amlinellodd yr Arglwydd Currie yr amserlen ar gyfer y Ddeddf Gyfathrebu a'r dyddiad pan disgwyliid y byddai OFCOM yn weithredol (sef, 26 Gorffennaf). Nododd yr Aelodau bod hysbysebion eisoes wedi ymddangos yn y wasg ar gyfer aelodaeth y Bwrdd Cynnwys. Aethpwyd ymlaen i awgrymu y dylai S4C ddechrau ystyried y mater o 'Pwyllgor Cymru' a pha fath o bwyllgor fyddai'n dymuno gweld fel pwyllgor ymgynghorol. Roedd angen i S4C ffurfio barn ar y mater hwn a'i fwydo i OFCOM yn weddol fuan.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Yn dilyn llythyr a ddanfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol cyn y Nadolig, roedd cyfarfod bellach wedi'i drefnu ar gyfer 13 Chwefror.

Aelodaeth Pwyllgorau'r Awdurdod

Roedd y Cadeirydd wedi rhoi ystyriaeth i aelodaeth y Pwyllgorau a'r ddau lle gwag oedd angen eu llenwi. Roedd felly wedi gwahodd Eira Davies i eistedd ar y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth a Chris Llewelyn i eistedd ar y Pwyllgor Archwilio. Roedd y ddau Aelod wedi derbyn y gwahoddiad a estynnwyd iddynt a gofynnwyd felly i'r Awdurdod gadarnhau'r sefyllfa. Cytunwyd y dylid rhoi sêl bendith yr Awdurdod i'r ddau benodiad.

Eldra

Llongyfarchodd yr Awdurdod bawb yn gysylltiedig â'r ffilm *Eldra* am gael enwebiad Prydain ar gyfer Oscar yn y categori 'Ffilm Iaith Estron Gorau'. Nodwyd y byddai yna ddangosiad arbennig o'r ffilm yn cael ei gynnal yn Los Angeles y noson honno.

Y Ddeddf Gyfathrebu

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y dadleuon ar y Mesur Cyfathrebu yn y Senedd dros y diwrnodau blaenorol ac yn arbennig y drafodaeth benodol a gynhaliwyd ar S4C. Roedd yr Aelodau'n falch i glywed bod gwleidyddion wedi siarad mor bositif dros S4C. Roeddynt hefyd yn falch i glywed bod yna gefnogaeth i'r Sianel ar draws yr holl bleidiau.

Strategaeth Newydd

Nodwyd bod yna dargedau ugain uchaf bellach wedi'i gosod ar gyfer rhaglenni tri mis cyntaf y flwyddyn. Roedd yn fwriad i ddefnyddio'r rhain fel mecanwaith i lywio trafodaethau mewnol ar berfformiad. Gan eu bod wedi'u seilio ar sampl fach, roedd yn bwysig bod unrhyw drafodaeth ar sail y ffigurau gwyllo dros gyfnod o amser ac nid ar sail data oedd yn cael ei dderbyn o un ddiwrnod i'r llall.

Cronfa Ffilm a Theledu Sgrîn

Esboniodd y Prif Weithredwr y sefyllfa ddiweddaraf parthed trafodaethau ar sefydlu'r Gronfa Ffilm a Theledu. Ystyriwyd y cynllun oedd yn cael ei gynnig a nodwyd ei brif bwyntiau yn enwedig y rheiny yn berthnasol i S4C. Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth ofalus ar y cynllun yn enwedig ei berthynas gyda S4C. Cytunwyd, y dylid cadarnhau ymrwymiad y Sianel i'r fenter ond bod eisiau i unrhyw amodau oedd ynghlwm wrth gefnogaeth S4C gael eu cyflwyno'n ffurfiol i Sgrîn.

Darllediadau Gwleidyddol ac Etholiadol yn ystod 2003

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a gynigodd argymhellion parthed y dosraniad o ddarllediadau gwleidyddol ac etholiadol i'r pleidiau yng Nghymru yn ystod 2003. Nododd yr Aelodau bod yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn dilyn patrwm wedi'i fabwysiadu yn y gorffennol. Cytunwyd dylid derbyn yr argymhellion fel y'u gosodwyd allan yn yr adroddiad gerbron.

Yr Ymgynghoriad ar y Canllawiau Iaith Diwygiedig

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a gynigodd argymhellion yn dilyn yr ymgynghoriad ar y canllawiau iaith diwygiedig. Wrth ystyried cynnwys y canllawiau iaith a'r ymatebion wedi'u derbyn, teimlodd yr Awdurdod bod y polisi a fabwysiadodd ym mis Gorffennaf yn iawn. Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r canllawiau gan dderbyn yr argymhellion ar gyfer rhai mân newidiadau fel y'u gosodwyd allan yn yr adroddiad gerbron.

Rhestr Ddiddordebau Aelodau'r Awdurdod

Cyflwynwyd rhestr ddiddordebau ddrafft oedd yn adlewyrchu'r hyn yr oedd wedi'u datgan gan Aelodau'r Awdurdod yn Ionawr 2003. Cadarnhaodd yr Aelodau bod y rhestr yn gywir a, yn ôl y drefn arferol, chytunwyd y dylid ei chyhoeddi ar safle we S4C, gyda chopiau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn swyddfeydd y Sianel yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Cyflwyniad gan Bennaeth y Wasg

Rhoddodd Hannah Thomas gyflwyniad a wnaeth amlinellu rôl Swyddfa'r Wasg a diffiniodd prif amcanion gwaith cysylltiadau cyhoeddus. Disgrifiodd y trefniadau staffio ar gyfer tîm swyddfa'r wasg ac esboniodd y cyfrifoldebau a gweithgareddau parthed tri prif faes, sef: rhaglenni, corfforaethol a S4C Masnachol. Esboniodd hefyd y sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o fagu perthynas gyda'r wasg lleol a chenedlaethol er mwyn maxsimeiddio sylw da i S4C a rhoddodd bwyslais hefyd ar gyfathrebu mewnol ac allanol da. Daeth â'r cyflwyniad i ben trwy roi amcan o brif gynlluniau swyddfa'r wasg ar gyfer y flwyddyn i ddod. Diolchodd yr Aelodau i Bennaeth y Wasg am gyflwyniad diddorol a dilynodd drafodaeth ar rai o'r materion a gyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad. Yn bennaf, trafodwyd y berthynas gyda'r wasg yng Nghymru.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol